



## Cam 2: Dannedd

### Amcan dysgu

- Nodi'r gwahanol fathau o ddannedd mewn bodau dynol a'u swyddogaethau syml

### Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, mae'r plant yn dysgu enwau a swyddogaethau'r gwahanol fathau o ddannedd ac yn defnyddio hyn trwy wneud map o'u dannedd eu hunain. Yna maen nhw'n dysgu sut i ofalu am eu dannedd a pha fwydydd fydd yn cyfrannu at gynnal iechyd eu dannedd. Bydd y dysgu hwn yn eu helpu i ddatblygu eu rysâit ar gyfer cynnyrch bwyd llawn calsiwm yn y cam nesaf.

### Defnyddiau

- Diagramau system dreulio heb eu labelu ar gyfer ras gyfnewid fertigol
- Drychau
- Templedi map dannedd

### Nodiadau cyflwyno

Sleid 2: Amcan dysgu	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhannwch yr amcan dysgu ac eglurwch y byddwn yn dysgu popeth am ddannedd a sut i'w cadw'n iach yn y wers hon. Byddwn yn defnyddio'r dysgu hwn i'n helpu i ddatblygu ein cynhyrchion bwyd sy'n llawn calsiwm yng ngham nesaf y prosiect.</li></ul>
Sleid 3: Ras gyfnewid fertigol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dechreuwch trwy ofyn i'r plant adolygu eu dysgu o'r wers ddiwethaf gyda ras gyfnewid fertigol.</li><li>• Arddangos sawl copi o'r diagramau system dreulio heb eu labelu o amgylch yr ystafell ddosbarth (un ar gyfer pob grŵp).</li><li>• Rhannwch y plant yn grwpiau gallu cymysg heb fod yn fwy na 6 o blant.</li><li>• Gofynnwch i'r plant wedyn sefyll mewn llinell o flaen diagram eu grŵp.</li><li>• Esboniwch, pan ddywedwch ewch, y cânt eu herio i labelu'r diagramau gydag unrhyw wybodaeth y gallant ei chofio o'n dysgu ar y pwnc hwn cyn gynted ag y gallant.</li><li>• Caniateir i bob plentyn ychwanegu un darn o wybodaeth cyn pasio'r pen i'r plentyn nesaf (fel baton cyfnewid) ac yna symud i gefn y llinell.</li><li>• Esboniwch mai ras yw hon ac maen nhw'n cystadlu â'r timau eraill i fod y cyntaf i labelu'r diagram cyfan yn gywir gyda chymaint o wybodaeth â phosib.</li><li>• Casglwch yr ymatebion a mynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau.</li></ul>

Sleid 4: Archwilio ein dannedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhowch ddrych yr un i'r plant a gofynnwch iddyn nhw archwilio eu dannedd eu hunain. Faint sydd ganddyn nhw? Faint o ddannedd siâp gwahanol y gallant eu gweld?</li> <li>Siaradwch trwy'r sleidiau pwynt pŵer, ar bob sleid, yn gyntaf heriwch y plant i feddwl am y swyddi y mae'r dannedd siâp gwahanol yn eu gwneud ac yna datgelu'r wybodaeth am bob math o ddannedd.</li> </ul>
Sleid 5: Dannedd Blaen	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r dannedd blaen ym mlaen eich ceg. Fe'û defnyddir ar gyfer brathu darnau o fwyd a dechrau eu cnoi.</li> </ul>
Sleid 6: Dannedd Llygad	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r dannedd llygad yn ochrau eich ceg. Maent yn fwy pigfain na'r blaendannedd. Fe'û defnyddir ar gyfer rhwygo bwyd.</li> </ul>
Sleid 7: Cilldannedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r cilldannedd yng nghefn eich ceg. Maent yn fwy ac yn fwy gwastad na'ch dannedd eraill. Fe'û defnyddir ar gyfer gwasgu a malu bwyd.</li> <li>Fe allech chi roi cyfle i'r plant ymchwilio i ddannedd yn annibynnol ymhellach gan ddefnyddio ap BoneBox™ Dental Lite ar lpad.</li> </ul>
Sleid 8: Plotio map dannedd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnwch i'r plant ddefnyddio eu drychau i'w helpu i greu map o'u dannedd eu hunain ar y templed.</li> <li>Gofynnwch iddynt labelu eu diagramau gan ddefnyddio allwedd a pharagraff byr o wybodaeth am swyddogaeth pob un o'u mathau o ddannedd.</li> </ul>
Sleid 9-10: Dannedd iach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Esboniwch y bydd rhai bwydydd yn helpu i gadw ein dannedd yn gryf ac yn iach tra gall rhai eu gwanhau a'u difrodi. Mewn parau, gofynnwch i'r plant restru'r bwyd y maen nhw'n meddwl allai fod yn fuddiol i'w dannedd a mynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau.</li> <li>Esboniwch, ar gyfer esgyrn a dannedd iach, bod angen i ni sicrhau bod gennym galsiwm yn ein diet. Mae llaeth a chynhyrchion llaeth, ynghyd â bwydydd eraill fel llysiau gwyrdd deiliog, yn ffynonellau calsiwm pwysig.</li> <li>Heriwch y plant i feddwl am gynifer o gynhyrchion llaeth ag y gallant eu henwi.</li> </ul>
Sleid 11: Cynhyrchion llaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhannwch y rhestr o gynhyrchion llaeth ac eglurwch y byddant, yn y cam nesaf, yn gweithio'n wyddonol i ymchwilio i'r effaith y mae gwres yn ei gael ar ystod o gynhyrchion llaeth.</li> </ul>

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
Gwyddoniaeth	Anifeiliaid, gan gynnwys bodau dynol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi'r gwahanol fathau o ddannedd mewn bodau dynol a'u swyddogaethau syml</li> </ul>
Dylunio a Thechnoleg	Coginio a maeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Deall a chymhwyso egwyddorion diet iach ac amrywiol</li> </ul>